



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mawrth 2019

Adolygiad o Fodel Ariannu a Chyflawni Ôl-16 Jisc yng Nghymru



Adolygiad o Fodel Ariannu a Chyflawni Ôl-16 Jisc yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

Paratowyd ar gyfer:
Llywodraeth Cymru

Awdur: Nia Bryer

Adolygydd: Heledd Bebb

Browerdd, Heol yr Ysgol
Llanarthne, Sir Gâr
SA32 8HJ

01558 822 922
nia@ob3research.co.uk

38 Llewelyn Goch
Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6HR

029 2089 1724
heledd@ob3research.co.uk

Crynodeb Gweithredol

Nodau ac amcanion yr adolygiad

Comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni ymchwil OB3 Research i gyflawni adolygiad annibynnol o fodel ariannu a chyflawni ôl-16 Jisc (y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth) yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd archwilio a yw'r cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu ar gyfer Jisc er mwyn cynorthwyo gwaith darparwyr dysgu ôl-16 oed, sy'n gweithredu ar draws y byd addysg bellach (AB), dysgu seiliedig ar waith (DSW) ac addysg oedolion (AO), yn cyflawni'r gwerth gorau am arian. Yn ogystal, archwiliodd yr adolygiad i ba raddau y mae 'arlwy' cyfredol Jisc yn bodloni anghenion y sector hwn yng Nghymru. Amcanion penodol yr adolygiad oedd ystyried:

- cost, gwerth a budd cyfredol gwasanaethau Jisc i sefydliadau Addysg Bellach (AB) Cymru; gan glustnodi pa rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Jisc sy'n cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'r mwyaf gan y sector
- cost, gwerth a budd cyfredol y gwasanaethau y mae Jisc yn eu darparu ar gyfer darparwyr dysgu ôl-16 eraill yng Nghymru gyda chyllid Llywodraeth Cymru
- a fyddai model ariannu a/neu gyflawni amgen yn cynnig gwell gwerth am arian ac yn darparu manteision ychwanegol i'r sector ôl-16 yng Nghymru
- effaith bosibl unrhyw newidiadau sylweddol ar y model ariannu a/neu gyflawni cyfredol
- sut y gellid rhoi 'cylch adborth' effeithlon, amserol a chost isel ar waith er mwyn sicrhau bod adborth y darparwyr dysgu'n dylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru.

Y Dull

Cyflawnwyd yr adolygiad rhwng Rhagfyr 2018 a Chwefror 2019, ac roedd yn cynnwys:

- cyfnod cychwynnol a oedd yn cynnwys cyfarfod cyntaf gyda'r cleient er mwyn pennu'r fethodoleg
- cyfnod o waith ymchwil desg a oedd yn cynnwys adolygu'r ddogfennaeth a'r data allweddol am y defnydd o wasanaethau ac adnoddau
- paratoi offerynnau ymchwil, gan gynnwys arolwg dwyieithog ar y we, i hysbysu'r gwaith maes
- cyfweld â chyfanswm o 18 o randdeiliaid o Lywodraeth Cymru, Jisc a sefydliadau rhanddeiliaid eraill
- arolygu'r darparwyr dysgu, a dadansoddi ymatebion gan 21 o ymatebwyr

- cyfweld â chynrychiolwyr deg darparydd dysgu: pedwar coleg AB, pedwar DSW a dau ddarparydd AO
- dadansoddi'r dystiolaeth a pharatoi adroddiad.

Cefndir

Cwmni wedi ei gyfyngu trwy warant ac elusen yw Jisc. Mae'n darparu gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer cymunedau addysg, dysgu ac ymchwil y DU. Mae Jisc yn cynnig pecyn aelodaeth safonol a chymorth wedi ei ariannu gan y Llywodraeth ar gyfer sefydliadau AB ac AU yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Mae'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ategu seilwaith a chyflawniad digidol ar draws y sector ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer darparwyr DSW ac AO nad ydynt yn sefydliadau AB.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o £1.488 miliwn¹ yn cael ei fuddsoddi yn narpariaeth Jisc i gynorthwyo'r sector dysgu ôl-16 (heblaw Addysg Uwch) yng Nghymru². Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu gwerth cyfanswm o £1,246,000 o gyllid grant i Jisc, sef £1,046,000 o hynny i ariannu gweithgareddau craidd, a £200,000 o gyllid disgrisiynol i gynorthwyo blaenoriaethau penodol yng Nghymru.

Mae'r gweithgareddau craidd i gynorthwyo colegau AB yn cynnwys gwasanaethau technegol a chysylltedd, fel darparu gwasanaethau rhwydwaith Janet, adnoddau gwybodaeth a llyfrgell, hyfforddiant a chyingor ymarferol yn ogystal â mentrau ymchwil a datblygu. Defnyddir cyllid disgrisiynol i gynorthwyo datblygiadau yn y sector, ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer costau staff i ategu datblygiad a gweithrediad fframwaith strategol 2030 Digidol.

Mae cyfanswm o £242,077 pellach yn cael ei wario gan 21 o ddarparwyr o'r sector dysgu ôl-16 yng Nghymru ar wasanaethau opsiynol, ychwanegol Jisc y maent yn talu amdanynt (14 coleg AB, chwe darparydd DSW ac un darparydd AO). Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yma (£215,377 o'r £242,077) yn ymwneud â chostau sy'n gysylltiedig â Rhwydwaith Janet, ac mae Jisc yn ei drosglwyddo'n uniongyrchol i'w gyflenwyr.

¹ Cyllid Llywodraeth Cymru + taliadau gan y darparwyr dysgu unigol

² Mae hyn yn cynnwys cyllid grant ar gyfer Jisc yn ogystal â chostau eraill sy'n ymwneud â Chydgasglu Band Eang y Gwasanaethau Cyhoeddus a swydd cydgyssylltu Jisc yn Y Swyddfa Fyfyrrwyr.

Y Canfyddiadau Allweddol

Yn nhermau cysylltiad â Jisc ac ymwybyddiaeth am y gwasanaethau a'r adnoddau, dangosodd y gwaith maes:

- bod 86 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo eu bod yn wybodus am arlwy Jisc. Roedd y colegau AB yn fwy gwybodus na'r darparwyr DSW ac AO am arlwy Jisc (er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr AB yn fwy gwybodus am wasanaethau technegol a chysylltedd Jisc nag yr oeddent am ei adnoddau gwybodaeth a dysgu). Byddai darparwyr DSW ac AO yn gwerthfawrogi mwy o eglurder am beth sydd ar gael a beth sy'n berthnasol iddyn nhw
- bod y colegau AB yn nodi eu bod yn cysylltu â Jisc yn amlach na'r darparwyr DSW ac AO, yn enwedig fesul un trwy eu Rheolwyr Cyfrif yn Jisc. Roedd yr adborth am waith y Rheolwyr Cyfrif (lle bo perthynas yn bodoli) yn gadarnhaol iawn, ystyrir eu bod yn hawdd mynd atynt, yn broffesiynol ac yn wybodus. Lle nad oedd perthynas yn bodoli, byddai rhai o'r cyfranogwyr yn croesawu dull mwy rhagweithiol o weithredu o du Jisc er mwyn meithrin perthynas
- bod rhwydweithiau a chyfarfodydd sector yn sianel cysylltu hanfodol er mwyn i Jisc gyfarfod â chynrychiolwyr darparwyr addysg ôl-16.

Yn nhermau'r defnydd o wasanaethau ac adnoddau:

- roedd defnydd y colegau AB unigol o'r gwasanaethau'n amrywio'n helaeth. Y gwasanaethau y mae'r colegau AB yn eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'r mwyaf yw'r gofrestrfa parthau, aseinio cyfeiriadau IP, Rhwydwaith Janet, gwasanaethau ardystio (gwasanaeth y codir tâl amdano), JiscMail (gwasanaeth agored) a Netsight. Roedd yr holl golegau AB yn defnyddio'r gwasanaethau hyn
- yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'r mwyaf gan y darparwyr yw'r E-lyfrau ar gyfer AB a Chasgliadau Jisc
- dim ond un neu ddau goleg oedd yn defnyddio rhyw 18 o'r gwasanaethau neu'r adnoddau a ddarperir gan Jisc.

Canfu'r arolwg, yn achos y colegau AB:

- bod y cyfranogwyr yn fodlon, ar y cyfan, ar arlwy cyfredol Jisc, eu bod yn ystyried bod llawer o'u gwasanaethau technegol ac o ran cysylltedd yn rhai sy'n allweddol i fusnes, a phe na baent yn bodoli mwyach, byddai hynny'n tanseilio'n ddifrifol eu capasiti a'u gallu i gynnig darpariaeth addysg bellach

- bod dibynadwyedd rhagorol y gwasanaethau hyn yn aml yn golygu bod y gwasanaethau'n cael eu cymryd yn ganiataol, ac nad oedd yr uwch arweinwyr yn teimlo bod fawr o angen iddynt drafferthu â nhw
- bod lefelau defnydd o'r adnoddau llyfrgell a dysgu'n amrywio'n helaeth. Mae yna gyfle i godi ymwybyddiaeth am adnoddau dysgu ar draws y sector.

Y prif ganfyddiadau mewn perthynas â'r darparwyr DSW oedd:

- lle'r oedd y darparwyr DSW yn cysylltu'n weithredol â Jisc, roedd eu hadborth am eu profiadau'n gadarnhaol iawn
- roedd rhai darparwyr DSW, ac yn enwedig sefydliadau DU-eang neu ryngwladol, yn teimlo bod gwasanaethau ac adnoddau Jisc yn llai perthnasol iddynt, ac roedd llai o ddiddordeb ganddynt gysylltu â Jisc fesul un, am fod cymorth ac adnoddau ar gael iddynt yn fewnol
- byddai darparwyr DSW yn croesawu gwell eglurder mewn perthynas â'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt gan Jisc, ac amllder y cysylltiadau y gallent eu disgwyl.

Y prif ganfyddiadau mewn perthynas â'r darparwyr AO oedd:

- bod y darparwyr AO yn cysylltu â Jisc trwy rwydweithiau a phartneriaethau'r sector yn bennaf
- bod y darparwyr AO yn cwestiynu a oedd darpariaeth gyfredol Jisc yn addas at eu hanghenion, ond byddent yn croesawu gweld hyfforddiant ar gael yn ehangach (fel yr oeddent wedi ei gael yn y gorffennol)
- bod y darparwyr AO yn mynegi dymuniad cadarn i gysylltu â Jisc, a byddent yn croesawu mwy o eglurder am y gwasanaethau y gallent eu cyrchu.

Y prif ganfyddiadau o ran sut yr ariennir Jisc oedd:

- nad oedd yna unrhyw ddymuniad i newid y model ariannu ar gyfer Jisc yng Nghymru, am yr ystyrir bod anfanteision mabwysiadu model cyllid cymysg yn drech na'r manteision posibl
- bod yna deimlad bod lefel gyfredol y cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu, a'r rhaniad rhwng cyllid craidd a disgresiynol, yn briodol ac yn ddigonol.

Casgliadau

Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan Jisc, casgliad yr adolygiad yw bod yr arbedion ariannol a'r arbedion cost i golegau AB wrth ddefnyddio gwasanaethau ac adnoddau Jisc yn cynnig enillion cadarnhaol ar eu buddsoddiad. Drwyddi draw, mae Jisc yn adrodd bod y gwerth blynyddol cyffredinol a'r arbedion i golegau AB Cymru gyfwerth â dros £3.4 miliwn. Gellir disgwyl i raddfa'r arbedion amrywio o un darparydd i'r llall, yn dibynnu ar lefel eu defnydd o ddarpariaeth Jisc. Mae astudiaethau a gomisiynwyd gan Jisc yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r gwariant a'r arbedion ariannol yn gysylltiedig â'r gwasanaethau technegol a ddarperir trwy rwydwaith Janet, a'r ddarpariaeth seiberddiogelwch, ac yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd yn ystor y gwaith maes, ni fyddai'n annisgwyl i hynny fod yn wir ar draws colegau AB Cymru hefyd.

Nid oedd hi'n bosibl mesur faint o gyllid Llywodraeth Cymru oedd yn cael ei ddyrannu i gynorthwyo darparwyr ôl-16 nad ydynt yn perthyn i'r sector AB yng Nghymru (h.y. darparwr DSW ac AO), am nad yw'r ddarpariaeth honno wedi ei chlustnodi'n benodol, ac nid oes targedau penodol gan Jisc i'w cyflawni ar draws y maes gwaith yma.

Canfu'r adolygiad bod darparwyr DSW ac AO yn teimlo, ar y cyfan, bod gwasanaethau Jisc yn llai perthnasol iddyn nhw, a chymysg oedd eu safbwyntiau mewn perthynas â rôl Jisc at y dyfodol: roedd rhai darparwyr yn awyddus i chwarae mwy o ran, tra bod yn well gan eraill y dull digyswllt sydd ohoni. Casgliad yr adolygiad oedd y gellid diffinio cylch gorchwyl ac, o bosibl, lefel yr adnoddau a ddylai gael eu dyrannu i gynorthwyo gwaith y sectorau DSW ac AO yng Nghymru yn well, fel bod darparwyr yn fwy gwybodus am beth y dylent ddisgwyl ei gael gan Jisc.

Wedi ystyried safbwyntiau'r cyfranogwyr a fynegodd nad oedd yna awydd i newid model ariannu cyfredol Jisc, a lefel y risgiau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu dull ariannu model cymysg, casgliad yr adolygiad yw y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu Jisc gan ddefnyddio'r model sydd ohoni ar sail cyllid grant, sy'n cynnwys cyllid craidd a disgresiynol. Mae anfanteision mabwysiadu model ariannu sy'n seiliedig ar danysgrifiadau ar lefel y darparwyr, yn debyg i'r model sy'n cael ei gyflwyno yn Lloegr, a allai olygu dull mwy bratiog a llai strategol o weithredu yng Nghymru, yn gwrthbwysu'r manteision posibl, fel cynyddu ymrwymiad y darparwyr ar lefel uwch. Byddai'r newid yn effeithio hefyd ar gapasiti ac adnoddau Jisc i fodloni anghenion darparwyr yng Nghymru yn ystod y cyfnod tymor byr o newid, fel y digwyddodd yn Lloegr yn ôl y sôn.

Casgliad yr adolygiad yw bod y sector colegau AB yn cael gwerth da am arian ar lefel buddsoddiad cyfredol Llywodraeth Cymru a'r buddsoddiad sectoraidd yn Jisc. Canfu'r adolygiad bod y defnydd o'r ddarpariaeth ar draws colegau AB Cymru'n cymharu'n bositif â'r gwledydd cartref eraill, ac roedd adborth y colegau AB a oedd yn cysylltu'n weithredol â Jisc am y gwasanaethau yr oeddent yn eu

cael yn gadarnhaol. Casgliad pellach yr adolygiad yw nad yw'r sectorau DSW ac AO yn profi'r un lefel o werth cyffredin o'r gwasanaethau a ddarperir gan Jisc. Y darparwyr DSW oedd yn cael y gwerth mwyaf gan Jisc oedd y darparwyr a oedd yn cysylltu'n weithredol ac yn cael gweithgareddau cymorth wedi eu teilwra gan Jisc.

Mae yna gwmpas i Lywodraeth Cymru ddiogelu gwerth gwell fyth am arian o'i chytundeb ariannu gyda Jisc yn y dyfodol, trwy fabwysiadu gwell ffocws ar gynllunio tymor hir a sicrhau bod y sector yn manteisio i'r eithaf ar ddefnydd o'r ddarpariaeth sydd ar gael iddi. Mae fframwaith strategol 2030 Digidol yn cynnig y mecanwaith delfrydol i gyflawni hyn, a bydd gan Jisc rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyfrannu at ei weithrediad ac wrth gynorthwyo'r sector. Mae hi'n bwysig bod y gwaith yma'n cynnwys dull tymor hwy o gynllunio er mwyn cynorthwyo'r sectorau DSW ac AO. Yn ogystal, gellid cymryd camau eraill i wireddu gwell gwerth am arian trwy adolygu'r arferion gweinyddol sy'n gweithredu ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru (gan gynnwys symleiddio'r broses ariannu disgresiynol ar ôl i'r broses o ymgeisio am gyllid disgresiynol fwrw gwreiddiau; gan symleiddio a lleihau faint o waith adrodd sydd yna i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgu o'r arferion talu symlach a fabwysiadwyd gan arianwyr craidd eraill).

Yn olaf, daw'r adolygiad i'r casgliad bod cynrychiolwyr Jisc eisoes yn cyfrannu'n ymarferol at nifer o rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli ar draws y sectorau AB, DSW ac AO, ac mewn rhai achosion, maent yn hwyluso'r cyfarfodydd hynny'n uniongyrchol. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cynnig cyfleoedd delfrydol i'r sector a Jisc gydweithio ar faterion cyffredin, ac mae sgysiau o'r math yma'n digwydd eisoes. Mewn llawer o achosion, mae'r sgysiau'n dylanwadu ar ddarpariaeth Jisc ar gyfer y sector hwnnw ac yn cyfrannu ati, ond gellid ystyried mecanweithiau mwy ffurfiol er mwyn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn bwydo'r defnydd o gyllid disgresiynol.

Argymhellion

Ar lefel strategol, mae'r adolygiad yn argymhell:

- 1) Bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu Jisc gan ddefnyddio model y cytundeb ariannu blynyddol cyfredol
- 2) Bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r sectorau a Jisc, yn eglurhau beth y dylai darparwyr DSW ac AO ddisgwyl ei gael gan Jisc yn flynyddol, a'u bod yn pennu hyn yng nghytundeb ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer Jisc
- 3) Mabwysiadu dull mwy hirdymor o weithredu er mwyn bwydo gwaith Jisc gyda'r sectorau DSW ac AO yn benodol, a bod hynny'n cynnwys archwilio anghenion y sectorau hyn o ran hyfforddiant
- 4) Bod Jisc yn cyflawni ymarfer mesur enillion ar fuddsoddiad, tebyg i'r rhai a gyflawnwyd yn Lloegr a'r Alban, er mwyn darparu esiampl gadarn o'r arbedion ariannol a'r lleihad mewn costau a gyflawnir mewn sefydliadau yng Nghymru
- 5) Bod Llywodraeth Cymru'n cydweithio â Jisc i symleiddio'r broses o gytuno ar sut y defnyddir darpariaeth a ariennir yn ddisgresiynol, a hynny'n ddelfrydol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ac i'r ddarpariaeth honno gael ei bwydo'n well gan dystiolaeth o angen fesul sector.

Ar lefel weithredol, mae'r adolygiad yn argymhell:

- 6) Bod Jisc yn parhau â'i ymdrechion i godi ymwybyddiaeth am yr adnoddau sydd ar gael i golegau AB, a'i fod yn sicrhau bod y gwaith cyfathrebu yma'n cael ei dargedu mewn ffordd briodol
- 7) Bod y sector AB, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn ystyried a fyddai'n hyfyw sefydlu rhwydwaith o staff gwasanaethau gwybodaeth a llyfrgell er mwyn caniatáu ar gyfer gwell cyfathrebu, a chlustnodi unrhyw anghenion sydd gan y sector o ran adnoddau at y dyfodol
- 8) Bod rôl tri o'r ffora cyfredol, sy'n cwmpasu'r sectorau AB, DSW ac AO (fel y Grŵp Gweledigaeth Ddigidol), yn cael ei ffurfioli i gynnwys chwarae rôl wrth ddarparu adborth am briodolr a gwerth gwaith Jisc, ac i fwydo darpariaeth a ariennir yn y dyfodol, a bod hyn yn cael ei bennu yn eu Cylchoedd Gorchwyl perthnasol
- 9) Bod hyrwyddwr y sector digidol yn cael ei glustnodi ar gyfer pob un o'r sectorau AB, DSW ac AO er mwyn arwain y gwaith o roi adborth am waith Jisc a bwydo anghenion y sector at y dyfodol
- 10) Bod Jisc yn cysylltu â Grŵp Penaethiaid Colegau AB Colegau Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth am werth darpariaeth Jisc i'r sector ar lefel uwch.

- 11) Bod Jisc yn darparu adroddiadau mwy cryno ar gynnydd ar gyfer Llywodraeth Cymru i gydategu'r wybodaeth y gellir ei chyrchu trwy ddangosfwrdd Jisc, a bod Llywodraeth Cymru'n ystyried mabwysiadu gweithdrefnau i dalu hawliadau ariannol awtomatig yn fisol neu bob yn ail fis.